Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad o gynllun peilot Anogwr Cyflogaeth Gefnogol




Fersiwn hawdd ei ddeall yw'r ddogfen hon o adroddiad a elwir yn '**Gwerthusiad o gynllun peilot Anogwr Cyflogaeth Gefnogol'.**

# Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad……………………………………………..........3

Sut y cafodd yr ymchwil ei wneud? .............................. 5

Beth wnaethon ni ei ddysgu? ....................................... 6

Beth wnaeth weithio’n dda?......................................... 8

Pa wahaniaeth wnaeth cymryd rhan yn y cynllun peilot i bobl ifanc? ......................................................... 10

Pethau wnaeth pobl ddweud wrthym allai fod yn well am y cymorth........................................................... 12

Hyfforddiant staff ...................................................... 13

Sut y mae’r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn meddwl y gellid gwella pethau .................................................. 14

# Cyflwyniad





Hawdd ei

Mae'r adroddiad hawdd ei ddeall hwn am y cynllun peilot Anogwr Cyflogaeth Gefnogol.

Pan fyddwn yn dweud ei fod yn gynllun peilot, rydym yn golygu ei fod wedi cael ei redeg i weld pa mor dda yr oedd yn gweithio.





Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r cynllun peilot i helpu pobl ifanc sydd ag anabledd/anhawster dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth, i gael swydd neu brentisiaeth.




Roedd y cynllun peilot yn rhedeg o fis Hydref 2021 hyd fis Mawrth 2023 fel rhan o raglen hyfforddi a datblygu Twf Swyddi Cymru+.

Mae Twf Swyddi Cymru ar gyfer yr holl rai 16 i 19 oed ac mae'n helpu i roi'r sgiliau, cymwysterau a'r profiad y mae arnyn nhw eu hangen i ddod o hyd i waith neu i fynd i hyfforddiant.



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gael gwybod pa mor dda yr oedd y cynllun peilot yn gweithio i'r bobl ifanc a gymerodd ran.





Roedd gan bob person ifanc a gymerodd ran yn y cynllun peilot ei anogwr gwaith ei hun. Edrychodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ar sut yr oedd yr anogwyr gwaith yn rhoi cymorth a pha wahaniaeth yr oedd yn ei wneud i bobl ifanc.




Fe wnaeth hefyd archwilio pa mor hyderus oedd staff Twf Swyddi Cymru+ wrth roi cymorth i bobl ifanc ar y cynllun peilot.

# Sut y cafodd yr ymchwil ei wneud?



Fe wnaethom siarad gyda gwahanol grwpiau o bobl i ddeall sut yr oedd cymorth yr anogwr gwaith yn gweithio. Fe wnaethom siarad â:



- Thri o bobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot a'u rhieni/gwarcheidwaid.




- Anogwyr gwaith y bobl ifanc a'r staff Twf Swyddi Cymru+ oedd yn rhoi cymorth iddyn nhw.



- Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi gwneud profiad gwaith yn ystod y cynllun peilot, felly fe wnaethom siarad â'u cyflogwyr hefyd.

Fe wnaethom siarad â 24 o bobl i gyd.

# Beth wnaethom ni ei ddysgu?

## Beth oedd ar bobl ifanc ei eisiau o'r cymorth?

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod eisiau cymorth:




- I'w helpu i fod yn fwy hyderus.
- I gael y cyfle i gymryd rhan mewn profiad gwaith.
- I deimlo'n nes at allu dod o hyd i waith.

## Pa gymorth oedd anogwyr gwaith yn ei gynnig?



Roedd anogwyr gwaith yn cynnig amrywiaeth o gymorth dwys un i un i helpu pobl ifanc i:




- Feddwl pa fath o waith y bydden nhw'n hoffi ei wneud a sut i ymgeisio am swyddi.



- Dynodi pa sgiliau sydd ganddynt y gallent eu defnyddio yn y gweithle.




- Gwella eu sgiliau darllen, ysgrifennu, siarad a digidol.



- Datblygu eu CV ac ymarfer beth fydden nhw’n ei ddweud mewn cyfweliad swydd.




- Cynyddu eu hyder a dod yn fwy annibynnol, er enghraifft, trwy gynllunio gweithgareddau i’w helpu i reoli eu harian eu hunain a gallu teithio ar eu pennau eu hunain.





- Dod yn hyderus yn y gweithle trwy fynd gyda nhw ar eu profiad gwaith a rhoi cymorth iddyn nhw gyda thasgau yr oedd angen iddyn nhw eu gwneud.

# Beth wnaeth weithio'n dda?




Lluniodd anogwyr gwaith a staff Twf Swyddi Cymru+ berthynas dda gyda'r bobl ifanc yr oedden nhw'n eu helpu a dod i'w hadnabod yn dda. Roedd y bobl ifanc a'u rhieni yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.



Teimlai rhieni bod anogwyr gwaith wedi datblygu dealltwriaeth dda o anghenion dysgu eu mab neu ferch a'u nodau at y dyfodol.




Fe wnaeth yr anogwyr gwaith hefyd ddylunio gweithgareddau oedd yn cyfateb â'r ffordd yr oedd y person ifanc yn hoffi dysgu. Er enghraifft, roedd yn well gan rai pobl ifanc weithgareddau byr. Roedd un person ifanc yn ailadrodd tasgau i'w helpu i gofio beth yr oedd wedi ei ddysgu.



Roedd hyn yn golygu bod pobl ifanc yn fwy tebygol o gadw diddordeb yn y cymorth a gorffen y gweithgareddau.




Trwy siarad â'i gilydd yn gyson am sut hwyl yr oedd y person ifanc yn ei gael arni, gallai anogwyr gwaith a staff Twf Swyddi Cymru+ weithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd i gyflawni eu nodau.

# Pa wahaniaeth wnaeth cymryd rhan yn y cynllun peilot i'r bobl ifanc?

Dywedodd y bobl ifanc y gwnaeth y Sefydliad Dysgu a Gwaith siarad â nhw:




- Eu bod yn fwy hyderus wrth siarad â phobl newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd.




- Erbyn hyn mae ganddynt y sgiliau i chwilio am swydd ac ymgeisio amdani.




- Gallant wneud mwy o bethau iddyn nhw eu hunain, fel teithio ar eu pennau eu hunain a rheoli arian.



Dywedodd pobl ifanc oedd wedi cymryd rhan mewn profiad gwaith bod hyn wedi eu helpu i ddeall sut  deimlad fyddai mynd i'r gwaith ac i weld eu hunain yn y gweithle. Roedd hefyd wedi eu helpu i fod yn fwy clir am y mathau o swyddi y bydden nhw'n eu hoffi a ddim yn hoffi eu gwneud.



Dywedodd rhieni, anogwyr gwaith, a staff Twf Swyddi Cymru+ bod cymryd rhan yn y cynllun peilot wedi helpu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc, er enghraifft siarad â phobl newydd, a gwella eu hyder.


# Pethau y dywedodd pobl allai fod yn well am y cymorth




Dywedodd staff Twf Swyddi Cymru+ y gallai bylchau fod yn y wybodaeth y maen nhw'n ei derbyn am berson ifanc weithiau, pan fyddan nhw'n dechrau ar y rhaglen. Mae cael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl yn eu helpu i sicrhau bod y cymorth y maen nhw'n ei gynllunio ac yn ei roi yn addas i'r person ifanc.




Teimlai'r staff hefyd ei bod yn debygol bod mwy o bobl ifanc allai gael budd o'r cymorth, nad oedd wedi clywed amdano.



Hoffai rhieni gael gwybod ychydig mwy am y gweithgareddau y mae eu plentyn yn eu gwneud gyda'r anogwr gwaith fel eu bod yn gallu deall pa gynnydd y mae'n ei wneud, a gwybod bod y gweithgareddau yn addas i'w anghenion.

# Hyfforddiant staff


Roedd rhai o staff Twf Swyddi Cymru+ wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant i'w helpu i roi cymorth i bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Gofynnodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith i'r staff pa wahaniaeth yr oedd yr hyfforddiant wedi ei wneud iddyn nhw. Fe wnaethon nhw ddweud:




- Roedden nhw'n teimlo eu bod yn gallu cynllunio'r cymorth i'r person ifanc ag anabledd/anhawster dysgu a /neu awtistiaeth yn well, ac yn fwy hyderus wrth roi cymorth iddyn nhw.





- Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd yn fwyaf defnyddiol i staff oedd â llai o brofiad o helpu pobl ifanc anabl.




- Fe fydden nhw'n hoffi mwy o hyfforddiant ar wahanol fathau o anghenion dysgu a sut i roi cymorth i bobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl.

# Sut y mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn meddwl y gellid gwella pethau



Dylai cynghorwyr gyrfa gael gwybodaeth glir am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ag anabledd/anhawster dysgu a/neu awtistiaeth i'w helpu i ddod o hyd i swydd, a sut y gallan nhw gael y cymorth hwn.





Dylai pobl ifanc gael y cyfle i siarad am eu hanghenion cymorth a'u nodau personol yn gyson gyda'u hanogwr gwaith a staff Twf Swyddi Cymru+. Mae hyn yn bwysig fel bod staff yn gallu deall unrhyw newidiadau i nodau'r person ifanc a'i anghenion cymorth yn rhwydd.




Dylai rhieni gael ychydig mwy o ran wrth benderfynu sut y mae’r cymorth yn edrych. Gallai hyn fod ar ddechrau’r cymorth fel bod cymaint o wybodaeth ag sy’n bosibl yn cael ei chasglu am y person ifanc.




Gallai anogwyr gwaith hefyd rannu mwy o wybodaeth gyda rhieni am y mathau o weithgareddau y mae’r plentyn yn cymryd rhan ynddyn nhw, ar ôl i’r cymorth ddechrau. Ond mae’n dal yn bwysig i bobl ifanc gael help i ddod yn fwy annibynnol.



Mae’n bwysig i gymorth fod ar gael am cyn hired ag y mae ar y person ifanc ei angen, fel ei fod yn cael cymaint o fudd â phosibl ohono.

Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu gyda’n hymchwil.

## Dolenni i’r prif adroddiad ymchwil

Crynodeb hawdd ei ddeall o’r adroddiad llawn a elwir yn ‘Gwerthusiad o gynllun peilot Anogwr Cyflogaeth Gefnogol’ yw hwn.

Gallwch lawrlwytho’r adroddiad cyfan ac adroddiad cryno o wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-treialu-anogwr-cyflogaeth-gefnogol-twf-swyddi-cymru-plws-2021-i-2022

ISBN 978-1-80535-943-2